

<b>Adroddiad ar gyfer</b>	Pwyllgor Craffu Cymunedau
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	10 Mawrth 2022
<b>Cyflwynir gan</b>	Y Cynghorydd Huw O Williams, Cadeirydd y Grŵp Tasg a Gorffen
<b>Awdur yr adroddiad</b>	Karen Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
<b>Teitl</b>	Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Perygl Llifogydd a Pherchnogaeth Tir Glannau Afon

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y mae'r adroddiad a atodir fel atodiad 1 yn nodi cwmpas a chanfyddiadau Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Perygl Llifogydd a Pherchnogaeth Tir Glannau Afon. Y mae'n archwilio'r dulliau posibl o gryfhau sianeli cyfathrebu ac adeiladu cysylltiadau gweithio effeithiol rhwng pawb a phob sefydliad y mae ganddynt gyfrifoldeb am reoli'r perygl o lifogydd o afonydd a chyrsgiau dŵr ledled Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu am weithgareddau'r Grŵp Tasg a Gorffen, a gofyn i Bwyllgor Craffu Cymunedau ystyried a chytuno ar yr argymhellion a wneir.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod gweithgor Perygl Llifogydd, sy'n cynnwys yr awdurdodau rheoli perygl llifogydd a chynrychiolwyr tirfeddianwyr, yn parhau i gyfarfod yn flynyddol er mwyn cael y sefyllfa ddiweddaraf o ran problemau a disgwyliadau.

3.2. Bod tudalen y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd yn cael ei hail-lansio yn cynnwys:

3.2..1. dolenni i dudalennau gwe perthnasol Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru, ac

3.2..2. eglurhad o gyfrifoldebau perchnogion tir glannau afon yr Awdurdodau Perygl Llifogydd.

- 3.3. Creu taflen wybodaeth/llythyr gwybodaeth ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru ar gyfrifoldebau perchnogion tir glannau afon, a'i dosbarthu/ddosbarthu i eiddo cyfagos i Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn.
- 3.4. Bod yr adroddiad a gyflwynir i Bwyllgor Craffu Cymunedau, ar ôl ei gymeradwyo gan y Pwyllgor, yn cael ei gyfieithu a'i gylchredeg i Gynghorau Tref, Dinas a Chymuned ar gyfer ei roi ar eu gwefannau.

## 4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Nododd y Grŵp bod y cyfrifoldebau dros reoli perygl llifogydd ar gyfer afonydd a chysiau dŵr ledled Sir Ddinbych fel a ganlyn:
  - 4.1.1 Y mae Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn awdurdodau rheoli perygl llifogydd wedi eu diffinio gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.
  - 4.1.2 Y mae CNC yn gyfrifol am reoli risg yn ymwneud â llifogydd o brif afonydd, tra bod CSDd yn rheoli'r risg o lifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin eraill – afonydd llai, ffosydd, draeniau, carthffosydd a chwlfertau, ac ati. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyfrifoldebau am afonydd, ffrydiau, cwlffertau a chamlesi.](#)
  - 4.1.3 Y mae Dŵr Cymru (DC) yn gyfrifol am y system garthffosiaeth gyhoeddus yn Sir Ddinbych. Mae DC yn rheoli 3 gwahanol fath o garthffos:
    - System carthffos fudr ar wahân, sydd fel arfer yn gweithio gyda disgyrchiant, a llif dŵr budr wedi ei ddraenio yn unig
    - System carthffosydd cyfun sy'n draenio llif dŵr budr a dŵr wyneb (mae'r rhan fwyaf o'r systemau draenio mewn datblygiadau hŷn yn systemau cyfun); a
    - System Dŵr Wyneb wedi ei mabwysiadu – mae hon yn system ddraenio ar wahân ar gyfer dŵr wyneb yn unig (i'w chael mewn datblygiadau mwy newydd).
  - 4.1.4 Y mae tiffeddiannwr\* y mae ei eiddo gerllaw cwrs dŵr megis afon, nant neu ffos yn 'berchennog tir glannau afon'. Mae cyfrifoldebau'r perchennog tir glannau afon yn cynnwys:
    - cynnal a chadw gwely a glannau afon,
    - gadael i ddŵr lifo heb rwystr a
    - rheoli ei berygl llifogydd ei hunan.
    - Gofyn am gymeradwyaeth gan yr awdurdod rheoli risg perthnasol cyn ymgymryd ag unrhyw waith i gyrsiau dŵr. Mae'n bosibl y diogelir ambell gwrs dŵr fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu Ardal Cadwraeth Arbennig.

\*Y mae hyn yn cynnwys perchennog anheddau ac adeiladau sy'n gyfagos neu'n ffinio ar afon, nant neu gwrs dŵr arall (gall hyn fod yn ddeiliad tŷ unigol)

y mae ei ardd neu ei ardal allanol wrth ymyl un o'r cyrsiau dŵr hyn, ac nid person sy'n berchen ar barsel mawr o fferm neu fathau eraill o dir o reidrwydd).

- 4.2. Y grŵp mwyaf o bell ffordd a gysylltir â rheoli perygl llifogydd fyddai'r perchnogion tir glannau afon. Tra bo CNC, CSDd a DC yn cydweithio'n rheolaidd, gan rannu gwybodaeth ac arferion, y mae cyfathrebu gyda'r perchennog tir glannau afon, neu ei gynrychiolwr, ar y cyfan yn digwydd yn llai aml.
- 4.3. Y mae cynrychiolwyr perchnogion tir glannau afon – Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU), Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) a Chymdeithas y Tirfeddianwyr (CLA) – yn fodlon gweithio gyda'r awdurdodau rheoli perygl llifogydd a'u haelodau o ran rhannu gwybodaeth ynglŷn â'u cyfrifoldebau a Thrwyddedau Gweithgarwch Perygl Llifogydd drwy ysgrifau nodwedd yn Yr Amaethwr, Cyswllt Ffermio, Y Tir, ac ati.
- 4.4. Y mae hyn yn dal i adael bwlch yn y cyfathrebu gyda'r mwyafrif o berchnogion tir glannau afon yn Sir Ddinbych. Mae angen ymdrech ar y cyd er mwyn atgoffa perchnogion tir glannau afon o'u cyfrifoldebau rheoli llifogydd. Ar y sail hon, gyda'r bwriad o atgoffa perchnogion tir ac eiddo o'u cyfrifoldebau yn flynyddol, o leiaf, mae'r Grŵp Tasg a Gorffen wedi fformiwleiddio'r argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad sydd wedi ei atodi, ac y mae'n ceisio cefnogaeth y Pwyllgor i'r argymhellion hynny.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

- 5.1. Byddai dyfeisio atebion ymarferol drwy feithrin perthnasau gwaith effeithiol gyda thirfeddianwyr, preswylwyr a sefydliadau cyhoeddus eraill yn cefnogi'r gwaith o ddarparu blaenoriaeth gorfforaethol yr Amgylchedd drwy leihau'r perygl i fywyd ac eiddo gan lifogydd, gan alluogi preswylwyr, busnesau a chymunedau i fod yn gryfach ar gyfer y dyfodol hefyd.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 6.1. Angen ffynhonnell gyllid ar gyfer y costau a fyddai ynghlwm wrth ddsbarthu taflenni.
- 6.2. Angen cymorth o bosibl gan y meysydd gwasanaeth canlynol:
  - TGCh
  - Marchnata a Chyfathrebu
  - Bioamrywiaeth
  - Effeithiau ar yr amgylchedd

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

- 7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar hyn o bryd.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Sefydlwyd y Grŵp Tasg a Gorffen hwn gan Bwyllgor Craffu Cymunedau.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Byddai'n rhaid cynnwys unrhyw ffynonellau ariannol ychwanegol yng nghynigion y gyllideb yn ystod y cylch cyllideb nesaf. Y mae'r costau'n debygol o fod yn isel, a dylid anelu i'w cadw o fewn ffynonellau sydd eisoes yn bodoli.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Ni chanfuwyd bod unrhyw risg yn gysylltiedig ag ystyried yr adroddiad hwn. Amcan gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen yw canfod atebion ymarferol ac arferion gweithio effeithiol i leihau'r perygl i fywyd ac eiddo yn Sir Ddinbych gan lifogydd.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

11.1. Mae gan y Cyngor bwerau mewn perthynas â pherygl llifogydd a materion sy'n ymwneud â draenio dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010) a'r Ddeddf Draenio Tir (1991).

11.2. Mae pwerau'r Pwyllgor o ran datblygu ac adolygu polisi a chraffu ar berfformiad y Cyngor a chyrrff cyhoeddus eraill, wedi'u hamlinellu yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4 o Gyfansoddiad y Cyngor.